


## Canolfan Sgiliau Astudio: Dull cyfunol o ymdrin â llên-ladrad

Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn disgrifio dull cyfunol o ymdrin â llên-ladrad a luniwyd gan Ysgol y Gyfraith a'r Ganolfan Sgiliau Astudio.

Cafwyd cais gan Ysgol y Gyfraith i'r Ganolfan Sgiliau Astudio drefnu darlith ar lôn-ladrad i fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf a'r ail a phennwyd cynnwys y ddarlith mewn trafodaeth rhwng staff academiaidd yr ysgol a staff y ganolfan a datblygwyd ymateb i sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn deall ystyr llôn-ladrad a bod myfyrwyr oedd yn cael anhawster gwahaniaethu rhwng llôn-ladrata deunydd neu ddefnydd derbyniol o ddeunydd yn cael cyfle i sôn am eu pryderon a chael cefnogaeth ychwanegol mewn grwpiau bach. Roedd y cynllun yn cynnwys tri cham, roedd cam 1 a 3 wedi eu llunio i godi ymwybyddiaeth am ddefnydd derbyniol o ddeunydd ffynhonnell a phrofi ymwybyddiaeth y myfyrwyr o hynny a hidlo'r myfyrwyr nad oedd angen mynd ymlaen i gam 3. Ystyriwyd bod y broses hidlo'n hanfodol er mwyn cynnal diddordeb y myfyrwyr ac er mwyn iddi fod yn ymarferol bosib i gynnal y gweithdy yng ngham 3.



Yng ngham 1, roedd gofyn i'r holl fyfyrwyr wyllo 'Don't cheat yourself', tiwtorial ar-lein a ddatblygwyd gan y tîm datblygu dysgu ym Mhrifysgol Caerlŷr. Mae'r tiwtorial, a addaswyd i ddeunaw maes pwnc gwahanol trwy ddefnyddio testunau ac arddulliau cyfeirnodol pwnc-benodol yn:

- trafod beth yw llôn-ladrad;
- rhoi cyfle i wahaniaethu rhwng deunydd wedi ei lôn-ladrata a deunydd nad yw wedi ei lôn-ladrata;
- rhoi cyngor ar sut i osgoi llôn-ladrad.

Mae'r tiwtorial wedi ei drwyddedu dan drwydded 'creative commons' ac mae'n cymryd rhwng ugain munud a hanner awr i'w gwblhau.

Roedd cam 2 yn gofyn i'r holl fyfyrwyr gyflawni tasg chwarter awr a luniwyd gan yr ysgol. Roedd yr aseiad yn adeiladu ar y tiwtorial ar-lein ac yn gofyn i fyfyrwyr ddarllen paragraff o ffynhonnell academiaidd ac yna edrych ar bum enghraifft o ymgorffori'r testun mewn darn ffug o waith gan fyfyrwr. Roedd gofyn i fyfyrwyr nodi pa un o'r enghreifftiau, os o gwbl, oedd yn llôn-ladrata'r testun gwreiddiol a rhoi'r rhesymau dros eu hateb. Os oedd myfyrwyr yn ateb unrhyw un o'r pum cwestiwn yn anghywir neu'n dangos yn y rheswm dros eu hateb nad oeddent yn gyfarwydd â'r cysyniad o lôn-ladrad, yna roedd rhaid iddynt fynd ymlaen i'r gweithdy yng ngham 3. Roedd rhaid i 25% o'r myfyrwyr ar y cynllun fynd ymlaen i gam 3.

Trefnwyd seminar cam 3 i dri grŵp yn gyfochrog, gyda phob grŵp yn cynnwys dim mwy nag un ar bymtheg o fyfyrwyr. Roedd y seminar yn para am awr ac yn rhoi cyfle i drafod y canlynol:

- y sail resymegol dros ddyfynnu;
- natur y ffynonellau y mae myfyrwyr y gyfraith yn debygol o'u defnyddio yn eu haseiniadau;
- y math o wybodaeth sy'n tueddu i gael ei dyfynnu;
- dulliau o ysgrifennu nodiadau sy'n gymorth i osgoi llôn-ladrad.

Oherwydd bod y grwpiau'n fychan, roedd modd i'r myfyrwyr ofyn cwestiynau penodol am lôn-ladrad a thrafod mewn dyfnder arfer testunol yn eu maes pwnc hwy.